Samuel Roberts, ‘S.R.’, 1800–85
Gweinidog (A), golygydd, diwygiwr cymdeithasol radicalaidd, heddychwr a dirwestwr

O blentyn y nefoedd, paham mae dy fron
Mor ofnus wrth weled gwyllt ymchwydd y don?
Mae’r dyfnder du tywyll yn rhuo, gwir yw;
Ond diogel dy fywyd, a’th Dad wrth y llyw.

Samuel Roberts

Yr oedd John Roberts, tad Samuel Roberts, yn weinidog ar eglwys Annibynnol Llanbryn-mair ac yn y pentref hwnnw y ganwyd Samuel Roberts, ‘yn blentyn eiddil’, ar 6 Mawrth 1800, yn fab hynaf John a’i wraig Mary. Cawsant bump o blant i gyd, tri mab a dwy ferch. Cafodd addysg elfennol yn ysgol ei dad ac yna yn Amwythig, ac fe’i derbyniwyd yn gyflawn aelod o’r eglwys yn bymtheg oed. Rhoddodd ei fryd ar y weinidogaeth tua 1819 ac aeth i athrofa George Lewis yn Llanfyllin a’r Drenewydd i gael ei baratoi. Derbyniodd alwad i fod yn weinidog gyda’i dad ar yr Hen Gapel, ac fe’i hordeiniwyd ar 15 Awst 1827. Wedi marwolaeth ei dad derbyniodd ei frawd John Roberts alwad i gydweinidogaethu ag ef.

Ym 1857 penderfynodd ymfudo i Tennessee yn yr Unol Daleithiau at ei frawd Gruffydd Roberts a oedd wedi symud yno flwyddyn ynghynt i chwilio am fywyd gwell. Hwyliodd o Lerpwl ar fwrdd y *Circassian,* un o longau y North Atlantic Steam Company. Yr oedd ganddo freuddwyd i sefydlu gwladfa Gymreig yn un o’r taleithiau, ond buan y sylweddolwyd eu bod nhw wedi cael eu twyllo gan y goruchwylwyr tir yno. Aeth pethau o ddrwg i waeth i Samuel Roberts yn ystod Rhyfel Cartref America, 1861–65, oherwydd ei safbwynt heddychol, ac fe’i henllibiwyd gan y wasg yng Nghymru ac yn *Y Drych* yn America. Dychwelodd i Gymru ar y *City of Paris* gan lanio yn Lerpwl ym mis Awst 1867, ac aeth i

fyw gyda'i frawd John Roberts yng Nghonwy lle y bu hyd ddiwedd ei oes.

Bu Samuel Roberts yn eithriadol o weithgar yn pregethu, ysgrifennu a darlithio, a dros y blynyddoedd bu'n cystadlu mewn eisteddfodau gan ennill llu o wobrwyon, e.e. y wobr am draethawd yn dwyn y teitl 'Ardderchawgrwydd yr Iaith Gymraeg' yn eisteddfod Rhuthun 1824. Bu hefyd yn dadlau yn y wasg ar faterion pwysig y dydd fel y System Newydd, natur eglwys, addysg, y rheilffyrdd, a Brad y Llyfrau Gleision. Yr oedd yn heddychwr digymrodedd, a rhwng 1828 a 1834 darlithiodd lawer dros y Gymdeithas Heddwch. Cyhoeddodd lyfr emynau, sef *Casgliad o dros Ddwy Fil o Hymnau*, a chafwyd chwech argraffiad ohono mewn cyfnod o ugain mlynedd. Brwydrodd ac ysgrifennodd am ryddid a chyfiawnder mewn llawer maes; yr oedd yn erbyn caethwasanaeth, camdrin merched, creulondeb i anifeiliaid, y Degwm, ac o blaid masnach rydd a dileu'r Deddfau Ŷd.

Ym 1843 sefydlodd y misolyn *Y Cronicl* a adwaenid, oherwydd ei blyg, fel 'Y Cronicl Bach', ac fe'i defnyddiodd fel cyfrwng poblogaidd i oleuo'r darllenwyr ynglŷn â materion gwleidyddol, amaethyddol, economaidd a chrefyddol. Yr oedd ganddo faich arbennig dros amaethwyr cyffredin a chaledi eu bywydau, yn enwedig pan oedd tirfeddianwyr yn codi rhenti annheg arnynt.

Mae'n debygol mai erthyglau enwocaf Samuel Roberts oedd 'Ffarmwr Careful Cilhaul Uchaf' lle'r ymosodai ar landlordiaid barus. Golygodd *Y Cronicl* am bedair blynedd ar ddeg gan gyfrannu dros 1,500 o erthyglau iddo, a honnai fod dros filiwn o gopïau wedi eu gwerthu mewn deuddeng mlynedd. Bu farw'n ddibriod ar 24 Medi 1885, a chladdwyd ef yng Nghonwy lle y gosodwyd yn ddiweddarach gofgolofn i'r tri brawd, Samuel Roberts, John Roberts a Gruffydd Roberts.